| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEDI 2016** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 16 MEDI 2016** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2016 hyd at 16 Medi 2016.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 16 Medi 2016:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae’r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o’r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 16 Medi 2016, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i’r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwybodaeth | Corfforaethol | - | B | Atodiad 1 |
| Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | Addysg | - | B | Atodiad 2 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Bro Plennydd | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 3 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Eifion Wyn | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| System eGaffael – Trothwyon Goddefiant | Cefnogaeth Gorfforaethol | Caffael ac Effeithlonrwydd | A | Atodiad 5 |
| System Dyledwyr – Anfonebau gyda statws “Canslo” | Cyllid | Incwm | A | Atodiad 6 |
| Gwyliau Gofalwyr Cymunedol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gofal Cymunedol | - | Atodiad 7 |
| Plas Gwilym, Penygroes | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn “A” Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.

Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Economi a Chymuned | Hamdden | Derbyniol |
| Canolfan Hamdden Arfon | Economi a Chymuned | Hamdden | Derbyniol |
| Cartref Cefn Rodyn | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Derbyniol |

2.3.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2016**

Arwylaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol Ardudwy
Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol y Gader

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2017**

Plas y Don
Plas Hedd
Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 19 Medi 2016.

- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion *(Addysg)*
- Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant (*Addysg*)
- Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Beddgelert (*Addysg)*
- Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Talsarnau (*Addysg)*
- Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Tregarth (*Addysg)*
- Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Santes Helen (*Addysg)*
- Ysgolion – Cyffredinol *(Addysg)*
- Trothwyon Gwirio *(Cyllid)*
- Taliadau Tai Dewisol *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli *(Economi a Chymuned)*
- Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor *(Economi a Chymuned)*
- Canolfan Hamdden Plas Silyn *(Economi a Chymuned)*
- Canolfan Hamdden Dwyfor *(Economi a Chymuned)*
- Canolfan Hamdden Bro Dysynni *(Economi a Chymuned)*
- Gwerthiant Diesel *(Economi a Chymuned)*
- Traethau – Ymweliadau Dirybudd *(Economi a Chymuned)*
- Trefniadau Parhad Busnes/Gwasanaeth *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Rheolaeth Gyllidebol - Darparu *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Diogelu Rhag Colli Rhyddid *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Trefn Gwynion Gwasnaethau Cymdeithasol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Grant Cyfiawnder Ieuenctid *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Grant Dechrau'n Deg *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Mabwysiadu *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Ffioedd MOT *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2016 hyd at 16 Medi 2016, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**RHEOLI GWYBODAETH**
**CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir yr Archwiliad**

1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o Ddeddf Diogelu Data 1998, mae dyletswydd ar y Cyngor, yn fras, i:

- Gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- Sicrhau fod y wybodaeth y cael ei defnyddio mewn ffordd briodol
- Sicrhau fod yr unigolyn yn gwybod beth mae sefydliadau yn ei wneud â'i wybodaeth bersonol
- Sicrhau caniatâd yr unigolyn ag eithrio mewn achosion arbennig
- Sicrhau cywirdeb
- Orfodi set o egwyddorion ar gyfer prosesu gwybodaeth o'r fath.

1.2 Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar yr unigolyn yn ogystal â'r Awdurdod. Mae'n bosibl i aelod unigol o staff gael ei erlyn am fethu cydymffurfio â'r Ddeddf. Fel rhan o'u cyflogaeth gyda Cyngor Gwynedd, mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio effeithiolrwydd y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth o godi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth a chydymffurfiad y Cyngor gyda'r Ddeddf Diogelu Data. Gwnaethpwyd hyn drwy gylchredeg holiadur i ganfod ymwybyddiaeth gweithwyr swyddfeydd y Cyngor ac ailymweld â swyddfeydd ble darganfuwyd gwendidau rheoli gwybodaeth fel rhan o archwiliadau blaenorol.

2.2 Fel rhan o ymweliadau rheolaidd Archwilio Mewnol i sefydliadau allanol y Cyngor, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal gwiriadau a thrafodaethau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth. Bydd darganfyddiadau'r ymweliadau yma yn destun adroddiad archwilio ar wahân.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 **Arolwg staff:**

- Llwyddwyd i dderbyn 677 o ymatebion llawn allan o 2123 o weithwyr a wahoddwyd, sef ymateb o 32%. Nid yw'r ffigwr yma yn cymryd i ystyriaeth y gweithwyr oedd ddim yn y gwaith dros gyfnod yr arolwg, megis ar salwch tymor hir neu famolaeth ayyb.
- Yn ôl yr arolwg a gynhaliwyd, mae 563 (83%) o staff y Cyngor yn hyfforddedig mewn diogelu gwybodaeth i ryw raddau.
- Hyfforddiant mewnol yw'r prif fodd y derbynnir hyfforddiant, ond mae dulliau cyfrifiadurol, megis e-Ddysgu, hefyd yn boblogaidd o fewn adrannau ble mae'r rhan helaeth o weithwyr yn weithwyr swyddfa.
- Mae 31 (14%) o reolwyr, uwch-reolwyr a staff eraill sy'n gorchwylio swyddogion heb dderbyn hyfforddiant diogelu gwybodaeth.

- Mae'r cyfraddau uchaf o staff sydd heb eu hyfforddi mewn diogelu gwybodaeth, yn gweithio o fewn yr Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, YGC a Rheoleiddio, gyda gweithwyr o'r adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn mynegi'r ymwybyddiaeth leiaf o'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth.
- Nid oedd 18% o'r holl ymatebwyr yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth.
- Wrth dderbyn e-byst corfforaethol neu drwy ddarganfod gwybodaeth amdanynt ar y fewnrwyd y daeth y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth. Mynegogdd y gweithwyr nad oedd yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth, mai drwy e-bost neu eu rheolwyr llinell y buasent yn hoffi gwybodaeth.

**3.3 Ymweliadau ag ystafelloedd**

- Mae nifer o swyddogion yn dilyn polisi desg glir ac yn diogelu dogfennau cyfrinachol. Serch hynny, gwelwyd rhai gwendidau.
- Ni ellir ystyried droriau sydd â goriadau wedi eu gadael yn eu cloeau fel man diogel i gadw dogfennaeth gyfrinachol, gan fod unrhyw ddiogelwch yn cael ei ddileu gan y gallu i ddefnyddio'r goriad i agor y clo.
- Mae nifer o sachau coch wedi eu gweld yn agored a heb eu rhoi dan glo.
- Mae nifer o ddogfennau cyfrinachol yn cael eu cadw heb fod o dan glo mewn swyddfeydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn ymwybyddiaeth staff y Cyngor o Ddiogelu Gwybodaeth gan fod y gwaith o godi ymwybyddiaeth a hyfforddi yn y maes yn effeithiol, ond bod meysydd i ganolbwyntio sylw ac ymyrraeth ymhellach. Er bod hyfforddiant yn cael ei dderbyn, mae'n ymddangos nad yw'r neges yn treiddio yn gyfan gwbl ac nad yw'r rheolau yn cael eu dilyn ym mhob achos.**

Atodiad 2

**YSGOL ARBENNIG DWYFOR/ MEIRIONNYDD**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Rhoddwyd tendr allan yn Nhachwedd 2014 ar gyfer dewis contractwyr i adeiladu Ysgol Arbennig Newydd ar gyfer trigolion Dwyfor a Meirionnydd. Mae'r ysgol newydd wedi ei lleoli ym Mhenrhyndeudraeth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaeth gyllidebol a chynnydd prosiect adeiladu Ysgol Arbennig Dwyfor/ Meirionnydd, ym Mhenrhyndeudraeth yn ddigonol ac yn cyd-fynd â llawlyfr rheoli prosiectau'r Cyngor. Sicrhau bod trefniadau priodol yn ymwneud â'r broses tendro, a bod taliadau sy'n cael eu cwblhau i gontractwyr y prosiect yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn a bod y taliadau wedi'u cyfrifo'n gywir gyda dogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau.

3. **Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae gan y cytundeb werth o oddeutu £13.1M. Darganfuwyd bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli'r prosiect ond darganfuwyd materion mewn rhai meysydd fel y manylir isod:

3.1.1 Gwelwyd bod camgymeriadau ariannol ar un dystysgrif interim a archwiliwyd yn y sampl. Gwelwyd mewn perthynas â thystysgrif interim rhif 6 bod camgymeriadau wedi eu gwneud ar y dogfennau cefnogol. Wrth gynnal trafodaeth gyda'r Rheolwr Prosiect a'r Rheolwr Datblygu Eiddo, mynegodd y ddau nad oedd y materion hyn yn peri pryder iddynt a'u bod yn fodlon ac yn hyderus ym marn a gwaith y Syrfëwr Meintiau. Roeddynt o'r farn nad oedd risg yn bodoli oherwydd y byddai unrhyw wallau cyllidol wedi eu cywiro erbyn cyflwyno y dystysgrif terfynol.

3.1.2 Gwelwyd bod 4 allan o 14 o dystysgrifau interim archwiliwyd heb eu talu oddi fewn y dyddiadau penodol o 14 diwrnod. Fodd bynnag, ond ychydig yn hwyr y gwnaethpwyd y taliadau.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli prosiect Ysgol Arbennig Dwyfor/ Meirionnydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Rheolwr Prosiect wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Swyddogion priodol sydd yn rhan o'r broses sgorio i arwyddo pob dogfen sgorio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
- Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio talu tystysgrifau interim o fewn yr amserlen benodol.

Atodiad 3

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL BRO PLENYDD**

**1. Cefndir**

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Penaethiaid i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

Sicrhau fod trefniadau rheolaeth gyllidebol priodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod trefniadau rheolaeth gyllidebol da yn bodoli yn Ysgol Bro Plenydd, er bod gorwariant wedi bod ym mlynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Roedd y gorwariant yn sgil costau staffio ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2014/15 a oedd yn angenrheidiol a thu hwnt i reolaeth Tîm Rheoli'r ysgol. Derbyniodd Tîm Rheoli'r ysgol ganiatâd yr Uwch Reolwr Ysgolion i'r ysgol redeg ar ddyled, er mwyn cyflogi'r staff ychwanegol a bu i'r ysgol ymrwymo i ad-dalu'r gorwariant yng nghyllidebau'r blynyddoedd dilynol. Gwelwyd fod rhan helaeth o'r ddyled bellach wedi ei ad-dalu, gyda'r ysgol ond yn gorwario ar 1% o'u cyllideb ym mlwyddyn ariannol 2015/16. Gwelwyd bod materion yn ymwneud ac ad-dalu'r ddyled wedi eu trafod mewn manylder gyda'r corff llywodraethol gyda thystiolaeth bod gwariant yn cael ei fonitro yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Derbyniwyd gopi o bolisi hawliau gwario'r Pennaeth yn ystod yr archwiliad a fabwysiadwyd yn ôl yn 2011. Mynegodd y Pennaeth bod y polisi angen ei adolygu.

3.1.2 Mae gan y Pennaeth drefn o gadw cofnod blynyddol o'r gwariant a wneir ar wahanol nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oes trefn yn bodoli i ddangos os yw'r anfoneb sy'n berthnasol i'r gwariant wedi ei derbyn a'i hawdurdodi i'w talu. Yn sgil absenoldeb y Pennaeth, ni fyddai modd o wirio os yw'r anfoneb wedi ei derbyn ac wedi ei hanfon i'r Swyddfa Addysg ym Mhwllheli i'w phrosesu.

3.1.3 Ni wneir defnydd o'r system e-gaffael yn yr ysgol ar gyfer archebu nwyddau a gwasanaethau. Mynegodd y Pennaeth y byddai yn gwerthfawrogi hyfforddiant pellach ar y system. Yn dilyn ymholiadau pellach fe hysbyswyd yr archwiliwr y bydd Cwmni Cynnal yn darparu hyfforddiant ar y system yn ystod mis Hydref 2016.

3.1.4 Nid oes trefn o stampio dyddiad derbyn ar yr anfonebau pan dderbynnir hwy yn yr ysgol. Mae'n bwysig nodi'r dyddiad y derbynnir yr anfoneb yn yr ysgol, oherwydd y dyddiad hwnnw a ddylai'r Cymhorthyddion Sims ei gofnodi yn y blwch 'Pwynt Treth' ar y slip cyfeirebu T.R.252.

3.1.5 Gwelwyd bod trefn dda mewn bodolaeth ar gyfer derbynebu am wahanol fathau o incwm a gesglir yn yr ysgol. Fodd bynnag ni ddefnyddir derbynebau swyddogol y Cyngor ar gyfer derbynebu am yr incwm hyfforddiant cerdd a dderbynnir. Gan fod arian hyfforddiant cerdd yn cael ei dalu i gyfrifon y Cyngor disgwylir bod derbynneb swyddogol y Cyngor yn cael ei defnyddio. Mae'r archwiliwr bellach wedi gwneud trefniadau i'r Pennaeth dderbyn llyfr derbynneb TR32a y Cyngor.

3.1.6 Wrth archwilio cofnodion y corff llywodraethol ymddengys nad yw'r corff yn adolygu ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol yn unol â safonau Estyn a rheolau ariannol i ysgolion â chyllidebau dirprwyedig.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn rheolaeth gyllidebol Ysgol Bro Plenydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Pennaeth am gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y corff llywodraethol 13/07/16 yr angen i adolygu Polisi Hawliau Gwario'r Pennaeth.
- Pennaeth am gadw cofnod o'r hyn archebir boed hynny yn e-byst neu gofnod papur a pan fydd yn derbyn yr anfoneb o hyn allan am nodi ar y cofnod archebu bod yr anfoneb wedi ei derbyn ac wedi ei hanfon i'w brosesu.
- Pennaeth am fynychu hyfforddiant ar y system e-gaffael a fydd yn cael ei gynnal gan Cwmni Cynnal yn mis Hydref 2016.
- Pennaeth am ddyddio a llofnodi bob anfoneb, er mwyn cadarnhau'r dyddiad mae'r ysgol wedi derbyn yr anfonebau.
- Pennaeth am sicrhau bod y clerc yn rhoi derbynneb swyddogol o'r llyfr derbynneb TR32a ar gyfer yr incwm hyfforddiant cerdd a gesglir.
- Pennaeth am gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y corff llywodraethol 13/07/16 bod angen trafod ffioedd bws nofio yn ogystal â bod angen trafod ffioedd hyfforddiant cerdd ym mis Mai 2017.

Atodiad 4

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL EIFION WYN**

## 1. Cefndir

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau rheolaeth gyllidebol priodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

## 3. **Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod trefniadau rheolaeth gyllidebol da yn bodoli yn Ysgol Eifion Wyn gyda materion cyllidol yn cael eu trafod mewn manylder gyda'r corff llywodraethol a thystiolaeth bod gwariant yn cael ei fonitro yn erbyn y gyllideb. Fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Mynegodd y Pennaeth y byddai'n gwerthfawrogi pe bai'r adroddiadau cyllidol mae'r ysgol yn eu derbyn yn fisol gan yr Uned Gyllid yn cael eu haddasu yn y dyfodol fel eu bod yn fwy hwylus i ddilyn ac yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr.

3.1.2 Nid oedd goruchwyliaeth ddigonol gan ail swyddog dros y trefniadau bancio.

3.1.3 Cedwir taenlenni gan yr Ysgrifenyddes yn manylu ar yr incwm a gesglir, e.e. incwm gwersi cerdd, llefrith a nofio. Fodd bynnag, nid oedd y daenlen ar gyfer cofnodi incwm gwersi cerdd yn nodi dyddiadau i gadarnhau pa pryd derbyniwyd yr arian. Golyga hyn nad oes trywydd digonol o'r daenlen incwm gwersi cerdd i'r cofnodion bancio. Nid oedd colofnau cyfansymiau ychwaith wedi eu creu ar y taenlenni incwm. Fodd bynnag, mae cadw taenlenni o'r fath yn ymarferiad da iawn a drwy eu haddasu ychydig ymhellach byddent o fudd mawr i'r ysgol ar gyfer cysoni'r incwm a gesglir i'r hyn a gaiff ei fancio.

3.1.4 Wrth archwilio cofnodion y corff llywodraethol ymddengys nad yw'r corff yn adolygu ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol yn unol â safonau Estyn a rheolau ariannol i ysgolion â chyllidebau dirprwyedig.

3.1.5 Mae'r ysgol yn cael ei llogi gan gwmni bale a deëllir bod y trefniant yma yn un hanesyddol sy'n bodoli ers rhai blynyddoedd. Nid oes cytundeb ysgrifenedig cyfredol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cwmni bale ynglŷn â'r trefniant yma.

3.1.6 Defnyddir manylion mewngofnodi y cyn-bennaeth ar gyfer mynediad at gynhyrchu archebion yn y system e-gaffael.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn rheolaeth gyllidebol Ysgol Eifion Wyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad a/neu'r Uned Gyllid wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Uwch Gyfrifwyr i gysylltu â'r Pennaeth Mewn Gofal i dderbyn ei sylwadau ynglŷn â'r adroddiadau cyllidol. Ystyried os oes angen newid i'r adroddiadau.
- Pennaeth Mewn Gofal i wirio'r gwaith bancio ac am lofnodi'r llinell 'Llofnod yr ail Swyddog' yn y llyfr TR34 'Derbyniadau a Bancio' tan ddiwedd y tymor ac am hysbysu'r Pennaeth Parhaol o'r gweithrediad sydd angen ei barhau o fis Medi ymlaen.
- Addasu'r taenlenni a gedwir yn yr ysgol ar gyfer cofnodi manylion yr incwm a gesglir, megis incwm gwersi cerdd, nofio, a llefrith er mwyn hwyluso'r gwaith o gysoni'r incwm sydd wedi ei dderbyn yn erbyn yr incwm a gaiff ei fancio.
- Hysbysu clerc y corff llywodraethol bod angen cynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y corff ym mis Medi yr angen i'r corff adolygu ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol.
- Creu cytundeb cyfredol rhwng y cwmni bale sydd yn llogi'r ysgol a'r ysgol, drwy wneud defnydd o'r llyfr 'Gosod Adeilad' TR184.
- Cysylltu gyda Cwmni Cynnal i newid manylion mae'r Ysgrifenyddes yn mewngofnodi i'r system e-gaffael o fanylion y cyn-bennaeth i fanylion sy'n berthnasol iddi hi.

Atodiad 5

## SYSTEM E-GAFFAEL – TROTHWYON GODDEFIANT CORFFORAETHOL

**1. Cefndir**

1.1 Mae system eGaffael Cyngor Gwynedd yn system ar-lein sy’n hwyluso’r drefn o archebu a phrosesu anfonebau. Prif nodweddion y system a'r drefn newydd yw’r gallu i swyddogion bori catalogau ar-lein, codi ac awdurdodi archebion yn electronig a hefyd derbyn anfonebau electronig yn uniongyrchol. Mae’r system eGaffael hefyd yn gysylltiedig a system DbArchive, sy’n cadw delweddau o’r archebion a’r anfonebau.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

3.2 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o drothwyon goddefiant system eGaffael y Cyngor, gan sicrhau bod y drefn o awdurdodi ac ail-awdurdodi archebion yn lliniaru’r risg o daliadau amhriodol i lefel sy’n cyfateb â natur yr archeb. Gwnaed hyn drwy sicrhau bod strwythur awdurdodi’r system yn caniatáu i weithwyr archebu nwyddau gan dderbyn awdurdodiad, os o gwbl, gan reolwyr ar lefel priodol a chyfatebol i werth yr archeb. Yn ogystal, gofynnwyd i sampl o reolwyr beth oedd eu hagwedd hwy tuag at drothwyon awdurdodi'r system drwy holi petaent yn fodlon diddymu’r angen i awdurdodi archebion o werth isel hyd at swm penodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Petai swyddog angen archebu nwyddau drwy’r system eGaffael, yna bydd angen i reolwr sydd â hawliau awdurdodi dros y cod gwariant dan sylw gymeradwyo’r archeb. Mae hyn yn sicrhau gwahaniad dyletswyddau, yn tynnu sylw rheolwr y gyllideb bod gwariant ar ddigwydd, a hefyd yn gyfle i’r rheolwr ystyried priodoldeb yr archeb.

3.2 Fodd bynnag, rhaid ystyried os yw’r rheolaeth yma yn ychwanegu gwerth yn y pen draw. Gwelwyd o archwiliadau blaenorol nad yw awdurdodi anfonebau o reidrwydd yn golygu bod rheolwyr wedi gwirio'r anfonebau am briodoldeb. Yn ogystal, mae rheolaethau cydadfer mewn lle, megis adroddiadau gwariant rheolaidd, gwiriadau gweledol ar nwyddau archebwyd a.y.b.

3.3 Wrth wneud cais i swyddog gael mynediad at y system, mae’n rhaid nodi pa godau gwariant gall y swyddog ddefnyddio a’r trothwy gwerth archebu. Bydd rheolwyr cysylltiedig â’r cod gwariant wedyn yn gallu awdurdodi unrhyw archeb a wneir gan y swyddog. Gall hyn olygu bod gan swyddogion ddewis o fwy nag un rheolwr i awdurdodi taliadau.

3.4 Detholwyd sampl o reolwyr oddi ar restr defnyddwyr eGaffael er mwyn canfod eu barn ar y broses archebu a throthwyon goddefiant y system, gan gynnwys y baich cynyddol sy’n deillio o’r posibilrwydd o awdurdodi archebion unigol yn hytrach nag mewn swmp.

3.5 O’r ymatebion a dderbyniwyd, darganfuwyd fod amrediad yn y nifer o geisiadau am awdurdodiad caiff eu derbyn gan y rheolwyr, ond roeddynt yn unfrydol nad oedd y dasg yn boen ac yn amharu ar eu gwaith dydd i ddydd.

3.6 Cymysg oedd y neges mewn perthynas â chaniatáu swyddogion i archebu nwyddau o werth isel heb awdurdodiad. Roedd rhai swyddogion o’r farn y gellir sefydlu trothwy o rhwng £50 - £100 ble nad oes angen awdurdodiad. Fodd bynnag, roedd rheolwyr eraill o’r farn ei fod yn “*hanfodol cadw golwg manwl ar wariant dim bwys pa mor fychan yw’r swm*” a bod y “*sustem yn ein barn ni yn gweithio fel y mae*”.

3.7 Mae goddefiant wedi ei osod o fewn y system i ganiatáu swyddogion i dderbyn nwyddau sydd £50 yn uwch neu yn is na gwerth yr archeb wreiddiol, heb yr angen am ail awdurdodiad gan reolwr. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth pris rhwng archeb a’r gwir gost, gall fod oherwydd taliadau cludo a phostio annisgwyl, camgymeriad TAW a.y.b. Petai reolwyr o’r farn nad yw caniatáu goddefiant o hyd at £50 yn ddigon, yna mae modd newid y trothwy o fewn y system fel nad oes angen ail-awdurdodi archebion sy’n newid gwerth, hyd at lefel sy’n cyd-fynd â dymuniad y rheolwr.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau sefydlu trothwyon goddefiant o fewn y system e-gaffael gan y gellir gosod trothwyon yn unol â dymuniadau rheolwyr ar hawliau unigolion sydd o fewn eu gwasanaeth ar ôl pwyso a mesur yr hyn sydd yn dderbyniol.**

Atodiad 6

**SYSTEM DYLEDWYR - ANFONEBAU GYDA STATWS CANSLO**
**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd ar ran Llywodraeth Cymru mewn 8 ardal Awdurdod Lleol, sef Ceredigion, Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys a Wrecsam. Mae'r Asiantaeth yn seiliedig ar bartneriaeth o'r 8 Awdurdod, gyda Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol. Fel Awdurdod Arweiniol, disgwylir i weithdrefnau'r Asiantaeth, gan gynnwys gweinyddu a dileu anfonebau dyledion, ddilyn Rheolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor, yn unol â cytundeb y bartneriaeth. Fodd bynnag, fel Asiant o Lywodraeth Cymru, mae trefniadau gweinyddu dyledion eisoes wedi ei sefydlu, ac nid oes gan y Cyngor rôl flaenllaw yn y broses adfer.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd i'r Cyngor, fel Awdurdod Arweiniol, bod trefniadau priodol mewn lle yn y broses o weinyddu anfonebau dyledus i'r Asiantaeth, drwy ymchwilio'r drefn sydd wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ac adolygu sampl o anfonebau.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Pan mae'r Asiantaeth yn cyflawni gwaith atgyweirio ar eu rhwydwaith yn dilyn difrod gan 3^ydd^ parti, byddent yn codi anfoneb ar yr unigolyn neu y cwmni yswiriant, drwy'r Cyngor, am yr holl gostau yn ogystal â 8% ychwanegol ar ben hynny i adlewyrchu ffi gweinyddu'r Asiantaeth.

3.2 Os na dderbynnir taliad, anfonir dau lythyr atgoffa, yn unol â trefn arferol y Cyngor. Fodd bynnag, yr Asiantaeth ac nid y Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau taliad, ac mae arweiniad iddynt gan Lywodraeth Cymru i gyfeirio unrhyw anfonebau ble nad oes setliad gan y 3^ydd^ parti o fewn amserlen benodol at Lywodraeth Cymru am weithrediad pellach.

3.3 Wrth reswm, gwelwyd fod y cwmnïau yswiriant yn gyndyn i dalu heb gynnal ymchwiliadau dwys, a all arwain at oediadau sylweddol cyn i anfonebau gael eu setlo. Gwelwyd yn aml fod y cwmnïau yswiriant yn ceisio negodi'r ffioedd sy'n ddyledus, gan wrthod talu'r ffioedd llawn.

3.4 Er mwyn hwyluso'r drefn o setlo anfonebau, mae'r Asiantaeth yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda swyddog o Lywodraeth Cymru i drafod anfonebau ble mae anghydfod.

3.5 Gwiriwyd sampl o anfonebau a'r dogfennau perthnasol i'r achosion. Gwelwyd unwaith mae setliad wedi ei gytuno, unai caiff yr anfoneb ei dalu'n llawn, neu bydd arweiniad yn cael ei roi gan yr Asiantaeth i Uned Incwm y Cyngor godi nodyn credyd am y gwahaniaeth, a thrin yr anfoneb wreiddiol fel un sydd wedi ei setlo.

3.6 O safbwynt y cyfrifon, mae anfonebau dyledus i'r Asiantaeth yn sefyll ar fantolen y Cyngor fel dyled. Er bod hyn yn gogwyddo'r ffigyrau, cânt eu canslo gan gredyd cyfatebol. Fodd bynnag, dengys bod dangosyddion perfformiad casglu incwm yn cael eu gogwyddo gan anfonebau dyledus Cefnffyrdd. Mae prydlondeb setlo anfonebau dyledwyr Cefnffyrdd allan o reolaeth y Cyngor, felly disgwylir i'r rhain gael ei anwybyddu yn ystadegau'r Cyngor.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gweinyddu dyledwyr yr Asiantaeth Cefnffyrdd gan y gellir dibynnu ar y trefniant sydd mewn lle gan Lywodraeth Cymru, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 7

**GWYLIAU GOFALWYR**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1. Mae'r Cyngor yn cyflogi Gofalwyr Cymunedol i ddarparu gofal i ddinasyddion bregus Gwynedd yn eu cartrefi ac i'w cefnogi i fyw bywydau mor annibynnol â phosib. Mae oriau wythnosol Gofalwyr ar gytundebau rhan amser yn amrywio o un aelod i'r llall, ond oherwydd natur y gwaith a diffyg argaeledd Gofalwyr mewn ardaloedd gwahanol o'r sir, mae'r gwir oriau y maent yn eu gweithio yn amrywio, ac yn aml iawn yn mynd dros yr oriau cytundeb ac ymlaen i oriau goramser.

1.2. Oherwydd yr amrywiaeth yn yr oriau, mae cymhlethdod yn codi wrth gyfrifo eu hawl i wyliau. Fel aelodau o staff y Cyngor, mae ganddynt hawl i'r un nifer o ddiwrnodau gwyliau a staff eraill y Cyngor, ond eu bod ar sail oriau. Pan fydd Gofalwr yn gweithio oriau ychwanegol i'w cytundeb, bydd yr hawl am wyliau yn cynyddu hefyd, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gyfrifo a'i ychwanegu i gerdyn gwyliau gan weinyddwyr. Gan fod cyfartaledd oriau gwaith diwrnod Gofalwyr yn cynyddu, bydd y nifer o oriau gwyliau sydd angen i gymryd diwrnod o wyliau hefyd yn cynyddu, sy'n achosi cymhlethdod ar gardiau gwyliau ac anfodlonrwydd ymysg staff gall fod dan yr argraff bod gweithio oriau ychwanegol ddim o fudd iddynt.

1.3. Mae'r Gwasanaeth yn derbyn fod y trefniadau yn gymhleth, ond gwnaethpwyd cais i Archwilio Mewnol roi sicrwydd eu bod yn cyfrifo'r hawl gwyliau yn gywir. Yn y dyfodol agos, bydd trefniadau gweinyddu electronig yn cael eu mewnblannu i'r Gwasanaeth, fydd yn gwneud nifer o'r cyfrifiadau dros y gweinyddwyr yn awtomatig, ond mae angen cadarnhad fod y trefniadau a fformiwlâu sy'n cael eu mewnbynnu i'r system yn gywir, fel y gall y Gofalwyr ymddiried yn y system i wneud cyfrifiadau yn gywir.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1. Bwriad yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd ar drefniadau cyfrifo gwyliau Gofalwyr Cymunedol yn dilyn cais gan y Gwasanaeth am ymchwiliad annibynnol o'r trefniadau. Gwnaethpwyd hyn drwy edrych ar y trefniadau a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i weinyddu'r drefn sef taflenni amser, cardiau gwyliau, a dogfennau perthnasol eraill sy'n cefnogi'r trefniadau cyfrifo. Hefyd, gwiriwyd gyfrifiadau y trefniant arfaethedig o ddefnyddio meddalwedd CACI ynghyd â dyfeisiadau symudol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1. **Darganfuwyd fod hawliau gwyliau Gofalwyr Cymunedol yn cael eu cyfrifo yn gywir a bod y fformiwla defnyddir gan system CACI yn gywir. Fodd bynnag, gwelwyd fod nifer o bethau i'w hystyried wrth fynd ymlaen i ddefnyddio'r trefniadau arfaethedig:**

- Yn dilyn cyfnod o weithio oriau ychwanegol, mae hawliau gwyliau'r Gofalwyr yn cynyddu. Yn ogystal, mae’r nifer o oriau, ar gyfartaledd, mewn diwrnod o waith hefyd yn cynyddu, ac felly bydd angen diddymu rhagor o oriau gwyliau oddi wrth y Gofalwyr wrth iddynt gymryd diwrnod o wyliau. Fodd bynnag, mae’r dyraniad o ddyddiau gwyliau mae’r Gofalwyr yn gymwys iddynt yn aros yn gyson.
- Yn sgil yr uchod, dim ond tâl y Gofalwyr am y diwrnod o wyliau sy’n newid, gan fod yr oriau cyfartaledd wedi cynyddu. Serch yr ymddengys bod y gofalwyr ar eu colled yn sgil y nifer oriau ychwanegol o oriau a gymerir am ddiwrnod o wyliau, maent yn derbyn tâl am yr oriau hynny’n llawn.
- Mae y drefn yn fwy gymhleth os yw gweithwyr yn penderfynu cymryd hanner diwrnod o wyliau, e.e. gweithio pum awr yn y bore ac i ffwrdd yn y prynhawn. Ar yr achlysuron yma, y gwahaniaeth rhwng y diwrnod safonol, h.y. 7 awr 24 munud, a’r oriau a weithiwyd a gaiff ei dalu fel tâl gwyliau. Fodd bynnag, oherwydd bod y gwyliau yn cael eu cyfrifo mewn oriau ac nid mewn dyddiau, bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw unigolyn ar eu colled yn ariannol.
- Byddai cyfrifo gwyliau banc ar y cyd a gwyliau blynyddol yn bosib ac yn torri cam allan o’r trefniant, ond bydd angen cysondeb wrth ychwanegu diwrnodau ychwanegol am weithio dros oriau cytundeb.
- Byddai’n fuddiol pwysleisio tryloywder y trefniadau i’r holl staff, h.y. staff swyddfa yn ogystal â’r gofalwyr ac efallai y dylid ystyried ail-ymweld â hyn yn y cyfarfodydd cylch er mwyn lleddfu unrhyw bryderon.
- Mae angen sicrhau fod gweithwyr gyda dealltwriaeth lawn o gyfrifiadau CACI, a pha 13 wythnos a ddefnyddir i gyfrifo gwyliau, gan hefyd herio priodoldeb hyn (o’r ddealltwriaeth sydd i’w gael yn gyfredol mae wythnosau ble mae absenoldeb yn cael eu hanwybyddu, ble gellir fod wedi gweithio llawer mwy yn ystod yr wythnos yma, ac felly hawl i fwy o wyliau).

Atodiad 8

**CARTREF PRESWYL PLAS GWILYM, PENYGROES**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Lleolir cartref preswyl Plas Gwilym ym mhentref Penygroes. Mae'r cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 27 o bobl, a 2 ohonynt yn wlâu tymor byr. Roedd 25 o breswylwyr wedi eu cofrestru yn y cartref ar ddiwrnod yr ymweliad. Mae'r cartref hefyd yn cynnig gofal dydd i unigolion sydd am wneud defnydd o'r gwasanaeth ond sydd ddim yn preswylio yno.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal cartref preswyl Plas Gwilym yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref. Fodd bynnag, cafwyd gwybod bod lefelau absenoldebau staff yn profi i fod yn anodd ar adegau. Caiff hyn effaith ar gyflawniad dyletswyddau gweinyddol Rheolwr y cartref, gan fod sicrhau'r nifer ofynnol o staff ar gyfer bob shifft yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau o ran gofalu am y preswylwyr. Ystyrir fod rhai o'r pwyntiau a nodir o fewn yr adroddiad hwn yn codi o ganlyniad i ddiffyg capasiti i gyflawni tasgau gweinyddol oherwydd yr anawsterau staffio.

3.2 Nid oedd Datganiad o Ddiben y cartref yn gwbl gyfredol, ond cafwyd gwybod ei fod eisoes yn destun adolygiad pan gynhaliwyd yr archwiliad.

3.3 Nid oedd modd rhoi sicrwydd bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn gwahanol feysydd, gan nad oedd cofnodion y cartref yn gyfredol nac yn cyd-fynd â ffeiliau'r staff.

3.4 Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol pob deufis, sydd yn ddisgwyliad a osodir yn y Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

3.5 Mae rhestrau eiddo i bob ystafell yn y cartref, ond nid ydynt wedi eu dyddio na'u harwyddo.

3.6 Nid yw'r cabinet ble cedwir allweddi'r cartref yn cloi.

3.7 Mae trefniant o gadw balans rhedegog ar gyfer arian poced preswylwyr. Fodd bynnag, darganfuwyd mân gamgymeriadau cofnodi a chyfrifo.

3.8 Nid yw amlder y profion a nodir yn y llyfr log tân yn unol â'r disgwyliad. Yn ogystal, nid oedd y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Rheoli Tân ar gael. Serch hynny, mae'r Cynllun wedi ei adolygu'n lled ddiweddar.

3.9 Gwelwyd nad yw asesiadau risg y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadolygu yn

fisol, sy'n ddisgwyliad sydd wedi ei osod gan Reolwr y cartref.

3.10 O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd fod 1 aelod o staff wedi gweithio yn y cartref cyn i'r dadleniad GDG (*DBS*) gael ei gyflwyno, ond derbyniwyd sicrwydd gan y Rheolwr bod yr amgylchiadau gweithio o dan oruchwyliaeth.

3.11 Nid yw pob aelod o staff sy'n darparu meddyginiaeth wedi arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth. Gwelwyd hefyd fod anghysondeb rhwng y wybodaeth a gyflwynir ar y cofnod o dymereddau'r ystafell feddyginiaeth a'r oergell a'r hyn a nodir yn y Polisi Meddyginiaeth.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Cartref Preswyl Plas Gwilym gan fod y sefyllfa bresennol yn gwanhau'r rheolaethau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau â'r gwaith o adolygu'r Datganiad o Ddiben.
- Ymofyn cymorth gweinyddol ychwanegol er mwyn medru cyflawni'r dasg o ddiweddaru cofnodion hyfforddiant y cartref.
- Llunio rhaglen flynyddol ar gyfer cynnal goruchwyliaeth ffurfiol, gan ddirprwyo'r cyfrifoldeb i'r Is-Reolwr fel bo'r angen yn codi.
- Yr aelodau o staff sy'n gyfrifol am restr eiddo'r cartref i'w ddyddio a'i arwyddo.
- Ystyried yr opsiynau dros gadw allweddi'r cartref dan glo, gan ddod i benderfyniad ar yr opsiwn gorau o ran effeithiolrwydd a'r costau cysylltiedig.
- Sicrhau bod y cyfrifoldeb o gynnal y profion sydd wedi eu nodi yn y llyfr log tân yn cael eu dirprwyo i aelod penodol o staff ar achlysuron ble nad yw'r aelod arferol ar ddyletswydd.
- Sicrhau bod asesiadau risg y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n fisol, neu'n gynt os byddai newid yn sefyllfa'r unigolion.
- Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n darparu meddyginiaeth yn arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth.